# Chwarae'n Ddiogel

## Gweithgareddau Dilynol ar gyfer Athrawon

Mae'r gweithgareddau dilynol ar gyfer' Chwarae'n Ddiogel' yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni canlyniadau dysgu y Cyfnod Sylfaen o'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 yng Nghymru 2008 a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013. Nid yw'r gweithgareddau isod yn ddilynol ond yn hytrach yn ddewislen i athrawon.

| **Chwarae'n Ddiogel (CS) Gweithgareddau Dilynol** | **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd 2013** | **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 yng Nghymru** | |
|---|---|---|---|
| | | **Sgiliau** | **Ystod** |
| **1.Gwnewch e'n ddiogel** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d | ▪ Bod yn fwy ymwybodol o ddiogelwch personol<br>▪ Datblygu dealltwriaeth o'r peryglon yn y cartref a'r amgylchedd tu allan. | ▪ Gweithgaredd sy'n eu galluogi i ddatrys problemau a thrafod canlyniadau<br>▪ Gweithgaredd sy'n cyfrannu at eu diogelwch personol |
| **2. Beth nesaf?** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(D)y&d<br>Ll(W)ydd | ▪ Bod yn ymwybodol o ddiogelwch personol<br>▪ Datblygu dealltwriaeth o'r peryglon yn y cartref a'r amgylchedd tu allan. | • Gweithgaredd sy'n caniatáu iddynt fabwysiadu ystod o rolau, gan gynnwys arweinyddiaeth mewn grŵp bach, dysgu pâr neu weithio mewn tîm |
| **3. Continwwm Chwarae'n Ddiogel?** | Ll(Ll)s<br>Ll(D)c<br>Rh(DYRH)c&ch<br>Rh(DSRH)dffrhbrhrh | ▪ I fod yn ddysgwyr a meddylwyr annibynnol<br>▪ Datblygu dealltwriaeth o'r peryglon yn y cartref a'r amgylchedd tu allan. | ▪ Gweithgaredd sy'n galluogi iddynt ddod yn ddysgwyr annibynnol<br>▪ Gweithgaredd sy'n cyfrannu at eu diogelwch personol |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4. Hafau Diogel** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d | ▪ Bod yn fwy ymwybodol o ddiogelwch personol<br>▪ I ganolbwyntio am gyfnodau hwy o amser. | ▪ I gael profiad o adnoddau gwahanol fel y rhai mewn ffurfiau print a rhyngweithiol<br>▪ Gweithgaredd sy'n eu galluogi i ddatrys problemau a thrafod canlyniadau |

1. **Gwnewch e'n Ddiogel** - Gweithgaredd cyfateb parau yw hwn. Mae 24 cerdyn llun, 12 sefyllfa anniogel a 12 sefyllfa ddiogel (1a, 1b, 1c, 1d). Gan weithio mewn parau neu fel grŵp bychan, mae angen i'r disgyblion gyfateb y sefyllfa 'diogel' cywir â'r un anniogel e.e. byddai 2 blentyn yn crwydro'r goedwig yn sefyllfa anniogel. Y sefyllfa ddiogel fyddai mynd mewn grŵp a arweinir gan oedolyn. Oes llefydd tebyg gerllaw'r ysgol neu eu cartrefi? e.e. chwarel, traeth, coedwig ayyb. Gallai'r disgyblion drafod hyn ar ôl y gweithgaredd fel grŵp neu fel dosbarth.

2. **Beth nesaf?** - Gan ddefnyddio'r cardiau senario (2a, 2b), mae'r athrawes yn dewis un cerdyn ar gyfer pob grŵp. Yna, mae'r disgyblion yn penderfynu sut fydden nhw'n cadw'u hunain yn ddiogel yn y lleoliad hwnnw. Beth fydden nhw'n ei wneud nesaf? Gallai disgyblion ddilyn ymlaen â'r gweithgaredd hwn drwy ysgrifennu am yr hyn a wnaethant i gadw eu hunain yn ddiogel, neu fe ellir tynnu ffotograffau neu ffilmio'r chwarae rôl (efallai y gallai disgybl arall wneud hyn) fel bod y disgyblion yn medru asesu eu datrysiadau eu hunain a rhai grwpiau eraill.

3. **Continwwm Chwarae'n Ddiogel** – Ar gyfer y gweithgaredd gwrando hwn, bydd angen Datganiadau Chwarae'n Ddiogel arnoch ar gyfer yr athro/athrawes (3a) a'r Cardiau Rhif Continwwm (3b, 3c, 3d) neu, fel arall, gallai'r athro/athrawes ddewis defnyddio'r Cardiau Goleuadau Traffig Continwwm (3e, 3f, 3g) yn ôl oed a

gallu'r disgyblion. Mae'r gweithgaredd yn ymwneud â gwrando ar ddatganiad, a ddarllenir gan yr athro/athrawes, sy'n disgrifio senario. Mae'n rhaid i'r disgyblion benderfynu os yw'n ddiogel neu'n anniogel. Os ydynt yn ansicr, medrant nodi hynny. Gan ddefnyddio'r cardiau 1-10 neu'r 3 cherdyn goleuadau traffig, mae'r disgyblion yn penderfynu ble fydden nhw'n sefyll ar y continwwm. Anniogel yw 1, ansicr yw 5, a diogel yw 10. Gallai'r disgyblion sefyll ar y rhifau eraill ac esbonio pam eu bod wedi dewis y rhif hwnnw. Er enghraifft, pam maen nhw'n sefyll ar 8 os ydyn nhw'n credu nad yw'n hollol ddiogel? Os yn defnyddio'r 3 cherdyn lliw, coch – anniogel, oren – ansicr, gwyrdd – diogel.

4. **Hafau Diogel** - Gan ddefnyddio'r PowerPoint 'Hafau Diogel' (4) trafodwch sut i aros yn ddiogel mewn amryw o leoliadau - y traeth, mewn coedwig, ger dŵr a chwareli, ar fferm ac mewn pentref/tref. Mae gan bob lleoliad 5 prif bwynt 'aros yn ddiogel'. Gellir trafod y rhain gyda'r disgyblion.